Awgrymiadau anhygoel ar gyfer Diwrnod Ystafell Ddosbarth Wag

Mae Diwrnod Ystafell Ddosbarth Wag yn ddiwrnod i blant ym mhobman fwynhau dysgu a chwarae'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ar Ddydd Gwener 17 Mehefin 2016 mae ysgolion yn ymrwymo i dreulio o leiaf un wers y tu allan y diwrnod hwnnw ac mae Chwarae Cymru'n annog ysgolion i neilltuo'r diwrnod ar gyfer chwarae.

Dyma ein awgrymiadau anhygoel ar gyfer Diwrnod Ystafell Ddosbarth Wag chwareus!

1 Dydych chi ddim angen cynllun manwl o weithgareddau. Os gallwch chi gymryd cam yn ôl a goruchwylio o bell bydd y plant yn fwy tebygol o chwarae yn eu ffordd eu hunain ac ennill buddiannau o arbrofi a phrofi pethau drostynt eu hunain.

2 Diffinnir rhannau rhydd fel deunyddiau naturiol, a synthetig, sydd â dim defnydd penodol. Gofynnwch i'r rhieni a chyfeillion helpu trwy gasglu adnoddau fel: ffabrig, cafnau, bocsys a thiwbiau cardfwrdd, teiars, ffyn, tarpolinau, cortyn a rhaffau. Mae plant yn gallu bod yn greadigol iawn pan roddir llonydd iddyn nhw chwarae gyda'r adnoddau hyn.

3 Mae plant yn rhyfeddu at natur, felly meddyliwch am adnoddau sy'n caniatáu i blant archwilio'r pedair elfen fel rhan o'u chwarae:

Daear – cacennau mwd, tywod, clai neu dyllu
Awyr – barcutiaid, swigod, balwnau neu faneri
Tân – addurno canhwyllau, rhostio malws melys neu goginio dros dân gwersyll
Dŵr – pibelli dŵr, bwcedi, sbwnjis neu ganiau dŵr

4 Gwnewch yn siŵr bod y plant wedi ymbaratoi trwy hysbysu'r rhieni am eich cynlluniau. Dylech annog y plant i wisgo hen ddillad a bod yn barod ar gyfer pob math o dywydd ar y dydd.

5 Gwnewch yn siŵr bod y rhieni'n deall y bydd hwn yn ddiwrnod gwahanol iawn a bod eu plant yn debygol o faeddu. Mae hwn yn gyfle gwych i atgoffa rhieni bod chwarae'r tu allan a baeddu yn fuddiol iawn i les corfforol ac emosiynol eu plant.

6 Os rhowch chi ddigon o **amser** i blant fe wnânt chwarae a bod yn greadigol. Ystyriwch glustnodi o leiaf hanner y Diwrnod Ystafell Ddosbarth Wag ar gyfer chwarae.

7 Os rhowch chi ddigon o **le** i blant, bydd yn cefnogi ystod eang o brofiadau chwarae. Os oes gennych gae ysgol, dyma'r amser ichi wneud defnydd ohono!

8 Os rhowch chi **ganiatâd** i blant chwarae, maen nhw'n fwy tebygol o chwarae yn eu ffordd eu hunain. Efallai y bydd angen ichi gytuno ar rywfaint o fras reolau gyda'r oedolion sy'n goruchwylio ond, fel arall, caniatewch i'r plant benderfynu beth sy'n briodol trwy gamu'n ôl.

9 Os oes gennych dîm datblygu chwarae lleol cofiwch gysylltu â nhw gan y gallant gynnig syniadau ichi ar gyfer gwneud Diwrnod Ystafell Ddosbarth Wag yn un chwareus. Cewch hyd i bwy i gysylltu â nhw ar wefan Chwarae Cymru: www.chwaraecymru.org.uk/cym/gwasanaethauchwarae

10 Yn olaf, cofiwch gael hwyl. Dylai neilltuo Diwrnod Ystafell Ddosbarth Wag ar gyfer chwarae fod yn hwyl ar gyfer y plant a'r oedolion. Camwch yn ôl ac arsylwi'r profiadau anhygoel gaiff y plant wrth chwarae, fe'i gwelwch yn dysgu, yn trin a thrafod ac yn mwynhau eu hunain.

play wales chwarae cymru

www.chwaraecymru.org.uk

Elusen cofrestredig, rhif 1068926
Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 3507258
Cofrestrwyd yng Nghymru.